

## Tasg 2

## Marchnata

Sut mae cwmnïau'n marchnata eu cynnrych fel arfer?

1. Trafodwch hyn mewn grŵp, gan wneud nodiadau wrth i chi drafod.  
I'ch helpu chi, meddyliwch am ble rydych chi'n gweld ac yn clywed hysbysebion.  
Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

### Marchnata

Weithiau, mae cwmnïau'n cynnal ymgyrchoedd arbennig fel:

- gwyliau arbennig (e.e. gŵyl fwyd, gŵyl gaws ac ati)
- digwyddiadau arbennig (e.e. lansio cynnrych newydd)
- cyfweliadau radio / teledu
- creu cymeriad hoffus i hysbysebu cynnrych (allwch chi feddwl am gymeriadau sy'n hysbysebu?)
- rhannu taflenni ar y stryd
- cynnig bargeinion arbennig (e.e. rhoddion am ddim, prynu un cael un am ddim)
- gosod camerâu i ffilmio defaid Cymru ac ati.

Ewch i'r dudalen nesaf.

2. Mewn grŵp, rhestrwch bethau sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru. Dyma rai enghreifftiau – ond mae llawer mwy!

bwyd, e.e.

pethau electronig, e.e.

rhannau ceir, e.e.

diod, e.e.

pethau sy'n cael eu creu mewn melinau, e.e.

y cyfryngau, e.e.

3. Cymharwch eich rhestr chi â rhestri grwpiau eraill.

4. Mewn pâr, penderfynwch ar un cynnyrch.

Rydych chi'n mynd i osod camera fideo yn rhywle i geisio marchnata'r cynnyrch hwn.

Penderfynwch:

- ble
- beth fydd y fideo'n ei ddangos
- fydd cerddoriaeth ar y fideo – pa fath?

Paratowch wybodaeth i'w chynnwys fel troslais ar y fideo.

5. Cymharwch eich syniadau mewn grŵp.